Carcharorion a thai

Cadw eich cartref

Os ydych yn y carchar, ceisiwch gadw eich cartref tan eich bod yn dod allan. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd hyn yn rhwydd. Y peth pwysig yw **cael cyngor** ynglŷn â'ch sefyllfa dai gan ymgynghorydd arbenigol cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn hynod o bwysig i bobl sydd â dedfrydau byr. Os oes gennych ddedfryd fer, mae'n fwy tebygol y gallwch gadw eich cartref ond mae'n bwysig eich bod yn gweithredu'n gyflym.

Yn y mwyafrif o garchardai, mae yna ymgynghorwyr tai arbenigol sy'n gallu eich helpu gyda'ch problemau sy'n ymwneud â thai. Trefnwch i weld un o'r ymgynghorwyr cyn gynted â phosib. Os ydych yn gwneud hyn, mae'n fwy tebygol y gallwch gadw eich cartref. Os nad ydych yn gweld ymgynghorwr o fewn pedwar diwrnod o ddod allan o'r carchar, gofynnwch i aelod o staff i drefnu cyfarfod.

Fel arfer, mae'n syniad da i chi **gysylltu â'ch landlord neu eich cwmni morgais** yn gynnar. Rhowch wybod yr hyn sydd wedi digwydd a gofynnwch iddynt ysgrifennu atoch yn y carchar. Os nad ydych yn dweud wrthynt eich bod yn y carchar, bydd unrhyw ohebiaeth yn cael eu hanfon at eich cartref. Gallai hyn olygu na fyddwch yn derbyn gwybodaeth bwysig.

Os oeddech yn cael **Budd-dal Tai** neu **Fudd-dal y Dreth Gyngor** cyn i chi fynd i'r carchar, sicrhewch eich bod yn dweud wrth y cyngor yr hyn ddigwyddodd. Mae mynd i'r carchar yn **'newid mewn amgylchiadau'**. Os nad ydych yn dweud wrthynt, mae'n bosib y bydd angen i chi ad-dalu'r arian yn hwyrach.

Os ydych yn rhentu eich cartref

Mae'n rhaid bod gan eich landlord reswm cyfreithiol (**sail**) i'ch troi chi allan o'ch cartref. Y rheswm mwyaf arferol am eich troi allan o'ch cartref pan ydych yn y carchar yw nad ydych yn gallu talu'r rhent, ond mae yna resymau eraill hefyd.

Dyma rhai syniadau ynglŷn â sut ellir talu eich rhent pan ydych yn y carchar felly ni all eich landlord eich troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent:

Hawlio Budd-dal Tai i dalu'r rhent. Os na ddyfarnwyd chi'n euog, gallwch gael Budd-dal Tai am 52 wythnos cyn belled â'ch bod yn dychwelyd adref ar ôl cael eich rhyddhau o'r carchar. Os dyfarnwyd chi'n euog, gallwch gael Budd-dal Tai am 13 wythnos os nad oes disgwyl i chi fod yn y carchar am gyfnod hirach na 13 wythnos a'ch bod yn mynd i ddychwelyd adref ar ôl cael eich rhyddhau o'r carchar.

Copyright © 2002-2010 Citizens Advice. All rights reserved
Registered charity no: 279057 Company no: 1436945 England

Gallai eich teulu hawlio Budd-dal Tai. Mae'n rhaid eich bod yn byw gartref.

Rhentu eich cartref i rywun. Gwiriwch eich cytundeb tenantiaeth i weld os allwch wneud hyn. Nid yw llawer o gytundebau yn eich canatau i wneud hyn. Os nad oes hawl gennych i rentu eich cartref i rywun, ystyriwch ofyn i ffrind neu aelod o'ch teulu i **ofalu am y tŷ** a thalu'r rhent. Ni fyddant yn gallu cael Budd-dal Tai. Byddwch yn ofalus wrth ddewis pwy y dylech ofyn i wneud hyn - a oes gennych ffydd ynddynt i dalu'r rhent ar amser a chydymffurfio â rheolau'r denantiaeth?

Os ydych yn **denant cyngor**, gwiriwch i weld os bydd eich cyngor lleol yn dileu'r ôl-ddyledion rhent. Mae'n bosib y gwnânt hyn oherwydd mae'n rhatach na'ch troi chi allan o'ch cartref.

Talwch swm wythnosol i'ch landlord gan ddefnyddio arian eich hun. Mae hyn yn dibynnu ar faint o rent sydd ei angen. Mae hyd yn oed talu swm bach tuag at eich rhent yn dangos i'ch landlord eich bod yn gwneud ymdrech. Os bydd eich landlord yn mynd â chi i'r llys er mwyn eich troi chi allan o'ch cartref, bydd y llys yn cymryd y taliadau hyn i ystyriaeth.

Hyd yn oed os ydych yn llwyddo i ddatrys eich problem gyda'r rhent, mae'n bosib y bydd eich landlord yn gallu eich troi chi allan am resymau eraill.

Gallai'r cyngor geisio eich troi allan o'ch tŷ cyngor drwy ddweud nad eich cartref chi ydyw mwyach oherwydd eich bod yn y carchar. Felly, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r cyngor eich bod yn bwriadu dychwelyd ar ôl cael eich rhyddhau. Byddai gadael eich pethau yno neu ofyn i'ch ffrind i edrych ar ôl y lle yn dangos eich bod am ddychwelyd.

Cofiwch yn y rhan fwyaf o achosion, ni all eich landlord eich troi chi allan heb fynd i'r llys. Sicrhewch eich bod yn delio ag unrhyw waith papur yr ydych yn ei dderbyn oddi wrth eich landlord neu'r llys o fewn y terfyn amser. Mynnwch gyngor arbenigol os yw eich achos yn mynd i'r llys.

Os ydych yn denant cyngor, mae'n bosib y gallwch ddod i gytundeb gyda'ch landlord a fyddai'n eich arbed rhag gorfod mynd i'r llys. Mae hyn yn syniad da oherwydd ni fydd yn rhaid i chi dalu ffioedd y llys. Ceisiwch gytuno gyda'ch landlord y byddwch yn ildio eich cartref ar yr amod y bydd yn eich ailgartrefu pan ydych yn gadael y carchar. Sicrhewch eich bod yn cael cytundeb ysgrifenedig.

Os ydych yn berchennog preswyl

Os dyfarnwyd chi'n euog, ni fyddwch yn debyn unrhyw gymorth i dalu eich morgais. Os ydych ar remand neu mewn hostel mechnïaeth, mae'n bosib y cewch Gymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm i'ch helpu i dalu'r llog ar eich morgais. Fodd bynnag, ni fydd y budd-daliadau hyn yn talu eich morgais i gyd. Bydd angen i chi ofyn

Copyright © 2002-2010 Citizens Advice. All rights reserved
Registered charity no: 279057 Company no: 1436945 England

i'ch cwmni morgais i newid eich taliadau morgais er mwyn cymryd hyn i ystyriaeth. Mynnwch gyngor arbenigol os ydych yn mynd i ddyled gyda'ch morgais.

Os nad ydych yn gallu cael help i dalu eich morgais, mae'n bosib y gallwch:

- ofyn i **ffrind neu berthynas i aros yn eich cartref** a thalu'r morgais
- **rentu'r eiddo**. Bydd angen i chi ofyn i'ch cwmni morgais a allwch wneud hyn
- ofyn i'r cwmni morgais a allwch rewi taliadau ac ymestyn cyfnod eich morgais. Mae hwn yn opsiwn os oes gennych ddedfryd fer
- **werthu eich cartref**.

Os nad oes unrhyw un yn byw yn eich cartref tra'ch bod yn y carchar, mae'n bosib na fydd yn rhaid i chi dalu'r Dreth Gyngor. Os oes rhywun arall yn byw yno, mae'n bosib y caiff ddisgownt.

Os oes rhaid i chi dalu'r Dreth Gyngor, mae'n bosib y gallwch gal Budd-dal y Dreth Gyngor.

Eich cartrefu ar ôl gadael y carchar

Os nad ydych wedi gallu cadw eich cartref tra'ch bod yn y carchar, mynnwch gyngor gan ymgynghorydd tai arbenigol ynglŷn â'ch opsiynau pan ydych yn gadael y carchar.

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i'r cyngor ddod o hyd i lety ar eich cyfer. Mae hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau a ph'un ai eich bod mewn **angen blaenoriaethol**. Yng Nghymru, mae'r mwyafrif o bobl sy'n gadael y carchar yn cael eu hystyried mewn angen blaenoriaethol. Yn Lloegr, rydych mewn angen blaenoriaethol os oes gennych blant a oedd yn byw gyda chi cyn i chi fynd i'r carchar a byddwch yn byw gyda nhw am o leiaf ychydig o'r amser pan ydych yn cael eich rhyddhau. Caiff rhai pobl a oedd mewn gofal cyn iddynt fynd i'r carchar eu hystyried mewn angen blaenoriaethol. Yn ogystal â hyn, os cewch eich ystyried yn agored i niwed, mae'n bosib y byddwch mewn angen blaenoriaethol, yn enwedig os oes gennych anabledd, problemau sy'n ymwneud â'ch iechyd, cyffuriau neu alcohol neu os oeddech yn y lluoedd arfog cyn i chi fynd i'r carchar.

Os ydych yn cael eich ailgartrefu gan y cyngor, mae'n bosib y gallwch aros mewn hostel. Os ydych yn ceisio cael llety rhent preifat, bydd y mwyafrif o landlordiaid eisiau blaendal a rhent o flaen llaw. Mae'n bosib y gallwch gael cymorth ariannol gan y cyngor i dalu'r blaendal. Neu, gallech gael benthyciad o'r **Gronfa Gymdeithasol**. Mae'n bosib y bydd eich Canolfan Cyngor ar Bopeth yn gallu eich helpu i gael arian.

Copyright © 2002-2010 Citizens Advice. All rights reserved
Registered charity no: 279057 Company no: 1436945 England

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem.

Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cynghori yn y carchar. Os ydych yn y carchar, dylech wirio i weld os ydynt yn rhedeg y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn cynnal y sesiynau hyn, ysgrifennwch at eich CAB lleol ac esboniwch eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol.

Os nad ydych yn y carchar a hoffech ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Nacro
Mae Nacro yn sefydliad arbenigol sy'n darparu amryfal wasanaethau i gyn-droseddwyr, gan gynnwys cymorth ar dai, ailsefydlu ac addysg. Mae hefyd yn rhedeg rhai cynlluniau addysg/hyfforddiant. Cewch hyd i fwy o wybodaeth am y gwasanaethau hyn yn www.rsfinder.info. Mae gan y cwmni ganllaw ysgrifenedig ynglyn â chadw eich cartref sy'n enghreifftiau o lythyron i'ch helpu i ysgrifennu at eich landlord neu gwmni morgais. Gallwch gysylltu â Nacro ar 0800 0181 259 (rhadffôn) neu ewch at: www.nacro.org.uk.

Shelter
Mae Shelter yn sefydliad arbenigol sy'n helpu pobl gyda'u problemau tai. Ffoniwch linell gymorth Shelter ar 0808 800 4444 i ddod o hyd i'ch Shelter agosaf neu edrychwch ar y wefan http://england.shelter.org.uk

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion – llythyron
- Carcharorion – cael cymorth ychwanegol
- Sut i ddatrys eich problemau gyda'ch morgais
- Dod o hyd i lety
- Ôl-ddyledion rhent
- Tenantiaethau tai cymdeithasol

aiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 9 Gorffennaf 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Copyright © 2002-2010 Citizens Advice. All rights reserved
Registered charity no: 279057 Company no: 1436945 England